WGOS

# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*10fed Argraffiad, Chwefror 2024*

## Croeso

Bydd Cylchlythyr WGOS yn eich cefnogi i lywio drwy raglen ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Bydd awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd… **rydym yma i'ch cefnogi chi.**



Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #10 yn canolbwyntio ar y canlynol:

### Gweminar: WGOS 4: Retina Meddygol, Hydrocsiclorocwin a Glawcoma

Mae WGOS 4 yn wasanaeth lle mae cleifion a fyddai wedi cael eu hatgyfeirio at/neu eu rheoli o'r blaen yn y Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty (HES) yn lle hynny'n aros mewn gofal sylfaenol ar gyfer asesiad manylach pellach fel rhan o lwybr monitro neu fireinio atgyfeirio y cytunwyd arno.



Mae WGOS 4 yn defnyddio Optometreg Gofal Sylfaenol i leihau'r galw hanesyddol mewn ysbytai trwy reoli ymgyflwyniadau o risg glinigol uwch.

Mae nod cyffredinol llwybrau clinigol WGOS 4 a 5 yn cyd-fynd â "Cymru Iachach" gan wella mynediad at ofal llygaid cleifion a rheoli mwy o gleifion yn nes at eu cartrefi, gan sicrhau bod cleifion yn aros yn iach ac yn annibynnol.

# Cwestiynau allweddol

## ? Ydw i'n rheolwr practis, yn gontractwr neu'n gyflawnwr sy'n gweithio yng Nghymru?

- Os **'ydw'** yw eich ateb, gweithredwch nawr: Cadwch y dyddiadau ar gyfer ein gweminarau WGOS 4.
- Os **'nac ydw'** yw eich ateb i'r cwestiwn uchod, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

## Crynodeb

### Beth?

Gweminarau ar gyfer WGOS 4

### Pryd?

- Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024
  ***12.00-1.00pm***

  Cliciwch yma i gael mynediad ati

- Dydd Iau 14 Mawrth 2024
  ***7.00-8.00pm***

  Cliciwch yma i gael mynediad ati

### Sut?

Cliciwch ar y dolenni i'r chwith:

**Neu ewch i:**
https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/wgos/cylchlythyrau-wgos/

a chliciwch ar y dolenni yn Cylchlythyr #10

# Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

E-bost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Mae diweddariadau blaenorol i'w gweld yn:
https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/professionals/latest-news-for-professionals/wgos-newsletters/